# DATGANIAD I’R WASG

**I’w ryddhau ar unwaith (27 Hydref 2025))**

## Enw hanesyddol Cymraeg ‘Llyn Celanedd’ wedi ei adfer i Warchodfa Natur Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

**Ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus helaeth, mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru wedi cyhoeddi y bydd ei gwarchodfa natur ger Tal-y-bont, Bangor, unwaith eto’n cael ei hadnabod gan ei henw Cymraeg hanesyddol, 'Llyn Celanedd', gan ddisodli'r teitl mwy diweddar 'Spinnies Aberogwen'. Mae'r penderfyniad yn anrhydeddu treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog y safle ac yn cyd-fynd â pholisi'r Ymddiriedolaeth o adfer enwau lleoedd traddodiadol Cymraeg lle bo'n briodol. Wedi’i gefnogi gan drigolion lleol, grwpiau treftadaeth, a sefydliadau iaith cenedlaethol, mae adfer yr enw’n dathlu hanes amgylcheddol ac ieithyddol y dirwedd glan môr gwerthfawr hon.**

Ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus diweddar, mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru wedi penderfynu defnyddio'r enw hanesyddol 'Llyn Celanedd' yn hytrach na'r enw mwy diweddar ‘Spinnies Aberogwen' ar gyfer ei gwarchodfa natur ger Tal-y-bont, Bangor.

Mae'r penderfyniad yn adlewyrchu polisïau presennol yr Ymddiriedolaeth sef, lle mae eiddo yn cael ei adnabod o dan enw Saesneg, bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymdrechu i bennu a oes enw Cymraeg arall yn bodoli a fyddai'n fwy priodol.

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru wedi derbyn cefnogaeth eang gan ei haelodau a'i chefnogwyr, cymdogion, unigolion a sefydliadau lleol, yn ogystal â chyrff cenedlaethol gan gynnwys Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, Cymdeithas Edward Llwyd, Clwb Mynydda Cymru, Menter Iaith Gwynedd, Mudiad Meithrin, Cymdeithas yr Iaith, Dyfodol i'r Iaith a Chomisiynydd y Gymraeg.

Mae gwybodaeth lenyddol a daearyddol hanesyddol yn awgrymu mai ‘Llyn Celanedd’ oedd y pwll olaf yn llwybr troellog Afon Ogwen cyn iddi gael ei sythu yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fe wnaeth y broses gamlesu fwrw nifer o eitemau o bwysigrwydd amgylcheddol a diwylliannol o’r neilltu: aber yr afon a phwll gwerthfawr i bysgotwyr; cysylltiad rhwng tir, afon a môr; gwelyau wystrys – a'r enw a roddwyd i'r safle arbennig hwn.

**Dywedodd Chris Wynne, Rheolwr Gwarchodfeydd Natur, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru:** "Mae'n fraint gallu cefnogi adfer elfen o'n diwylliant a'n hetifeddiaeth leol, yn enwedig enw lle sy'n dal hanes amgylcheddol ein hamgylchfyd."

Mae'r enw 'Llyn Celanedd' yn cyfieithu i '*Pool of Dead Bodies*', atgof trawiadol o'i hanes chwedlonol. Yn ystod y Canol Oesoedd, cludwyd cyrff aelodau marw o deulu pendefigaidd Penrhyn ar gwch o Lyn Celanedd, ar draws Afon Menai, i fan claddu arbennig yn Llanfaes ar arfordir Ynys Môn. Wedi'i sefydlu tua 800 o flynyddoedd yn ôl, roedd y fynwent hon wedi'i chadw ar gyfer aelodau teulu brenhinol Gwynedd a theuluoedd bonheddig eraill y deyrnas. Ymhlith y rhai a gladdwyd yno roedd Siwan, gwraig Llywelyn ap Iorwerth (Llywelyn Fawr), ac Elinor, gwraig Llywelyn ap Gruffudd (Llywelyn ein Llyw Olaf).

Mae'r pyllau sydd i'w gweld heddiw yn rhoi lloches i adar hirgoes, adar hela, glas y dorlan — ac i'r gwylwyr adar sy'n dod i'w mwynhau. Dros amser, mae'r dirwedd hon sy'n newid o hyd wedi gweld trawsnewidiad: er ein bod ni wedi colli rhywfaint o fywyd gwyllt afonol a morydol a oedd unwaith yn ffynnu yma, mae rhywogaethau newydd a thra hoff wedi cymryd eu lle. Mae'r newidiadau hyn yn dal i ddatblygu, gan ein hatgoffa bod y cynefin arfordirol deinamig hwn yn sefyll ar flaen y gad o ran llygredd a newid hinsawdd.

**Dywedodd Frances Cattanach, Prif Swyddog Gweithredol, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru:** "Ein polisi yw, lle bo eiddo ag enw Saesneg, y bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymdrechu i bennu a defnyddio ei enw Cymraeg. Rydym ni wedi bod yn ffodus gyda'r safle hwn, gan fod ymchwil wedi darganfod yr enw 'Llyn Celanedd'. Byddwn yn mabwysiadu dull cam wrth gam i weithredu'r newid enw er mwyn sicrhau nad ydym yn gwario arian yn ddiangen. Rydym ni'n hynod ofalus gyda'n cronfeydd gwerthfawr a bydd unrhyw newidiadau i fyrddau gwybodaeth, taflenni a deunydd arall, yn cael eu gwneud pan fydd angen ail-argraffu pethau, neu drwy ddefnyddio cronfeydd y gellir ond eu defnyddio ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg."

Anogir aelodau'r cyhoedd i helpu Llywodraeth Cymru i gofnodi enwau lleoedd Cymraeg nad ydynt wedi'u cynnwys ar fapiau digidol eto trwy ychwanegu enwau ar https://datamap.gov.wales/survey/wpnc/

## DIWEDD

**Manylion Cyswllt:**

**Ian Campbell, Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru,** 01248 351 / 07904 598 587

**Delweddau i'w defnyddio gan y wasg ar gael yma:**
https://www.dropbox.com/scl/fo/a6yakpq5tcvkdko47m2kb/AJqpdeYs-W1HTa7fvLwjW4M?rlkey=gi6e5y7rtqcm2ov7m57gsxx16&st=hs426ue4&dl=0

Nodiadau i olygyddion:

- Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
  northwaleswildlifetrust.org.uk
  Ein gweledigaeth yw 'byd naturiol ffyniannus, gyda bywyd gwyllt a chynefinoedd naturiol yn chwarae rhan werthfawr wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, a phobl wedi'u grymuso i weithredu dros fyd natur'. Rydym ni'n elusen flaenllaw yng Ngogledd Cymru sy'n ymroddedig i gadw pob un o'n cynefinoedd a rhywogaethau, gyda mwy na 10,000 o aelodau. Rydym ni'n ymgyrchu dros ddiogelu bywyd gwyllt a buddsoddi yn y dyfodol trwy helpu pobl o bob oed i feithrin mwy o werthfawrogiad a dealltwriaeth o fywyd gwyllt. Rydym ni'n gofalu am 35 o warchodfeydd natur sy'n ymestyn dros 750 hectar. Am ragor o wybodaeth am Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ffoniwch 01248 351541 neu anfon e-bost i info@northwaleswildlifetrust.org.uk **www.northwaleswildlifetrust.org.uk**

Gwarchodfa Natur Llyn Celanedd (Spinnies Aberogwen)
www.northwaleswildlifetrust.org.uk/nature-reserves/spinnies-aberogwen-nature-reserve
Mae'n cynnwys cyfres o fôr-lynnoedd a chynefinoedd cyfagos sy'n darparu lloches a bwyd i adar gwyllt, adar rhydio ac adar llai, yn enwedig yn ystod mudo'r hydref a'r gwanwyn. Mae'r warchodfa wrth ymyl aber Afon Ogwen a'r gwastadeddau llaid llanwol sy'n cael eu hadnabod fel Traeth Lafan, ac mae'r llanw a'r trai cyson yn denu rhai rhywogaethau anhygoel gan gynnwys, ar achlysuron prin, gwalch y pysgod. Mae clystyrau tal, gosgeiddig o gyrs yn darparu safleoedd nythu cysgodol i ieir dŵr yn ogystal â lle ardderchog i wylio'r crëyr glas a'r crëyr bach yn hela! Am lawer o'r flwyddyn, mae'r glas y dorlan lliwgar yn olygfa gyfarwydd a phoblogaidd yma wrth iddo glwydo o amgylch y warchodfa a phlymio i'r dŵr i chwilio am ysglyfaeth. Mae'r cuddfannau adar a'r teclynnau bwydo'n darparu cyf